# DAVIS, DAVID DANIEL (1777 - 1841), meddyg

**Enw:** David Daniel Davis
**Dyddiad geni:** 1777
**Dyddiad marw:** 1841
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** meddyg
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym mhlwyf Llandyfaelog, Caerfyrddin, 15 Mehefin 1777. Bu yn ysgol ramadeg Caerfyrddin, wedyn yn academi Ymneilltuol Northampton, ac wedyn ym Mhrifysgol Glasgow, lle y graddiodd yn 1801. Gweithiodd fel meddyg yn Sheffield hyd 1813, pan symudodd i Lundain, a chael ei benodi'n feddyg i'r Queen Charlotte's Hospital. Yn 1819, efe a weinyddai ar dduges Caint pan aned y frenhines Victoria. Penodwyd ef yn 1827 yn athro bydwreigyddiaeth yng Ngholeg y Brifysgol yn Llundain. Bu farw 4 Rhagfyr 1841.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


T. Iorwerth Jones yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.*, 1932-3 (gyda rhestr o'i bapurau argraffedig)

*Lives of the Fellows of the Royal College of Physicians*, iii, 117

*Oxford Dictionary of National Biography*

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 173


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Daniel Davis

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74634951

Wikidata: Q5232812


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu